

Canllawiau – ffurflen Ymgeisydd yn Cyrraedd yn Hwyr Iawn ar-lein ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2026/27

1. **Gallai** ymgeisydd sy'n cyrraedd ar ôl dechrau'r arholiad gael caniatâd i sefyll yr arholiad. **Y ganolfan sydd i benderfynu ar hyn.**

Rhaid i'r ganolfan rybuddio'r ymgeisydd bod posibilrwydd na fydd y corff dyfarnu'n derbyn ei sgript pan fydd yn cyrraedd yn hwyr iawn i'r arholiad.

2. **Rhaid** rhoi'r holl wybodaeth a rhybuddion i ymgeisydd sy'n cyrraedd yn hwyr ac sy'n cael caniatâd gan y ganolfan i sefyll yr arholiad **cyn** eu bod yn dechrau'r arholiad. Rhaid i'r ymgeisydd gael yr amser llawn ar gyfer yr arholiad.
3. Ar gyfer arholiad sy'n fwy nag un awr, **nid** yw'n ofynnol llenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n cyrraedd o fewn un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu.
4. Ar gyfer arholiadau mwy nag un awr o hyd, bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn **hwyr iawn** os yw'n cyrraedd ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.
5. Ar gyfer arholiadau llai nag un awr, bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried **yn hwyr iawn** os yw'n cyrraedd ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.
6. **Rhaid** i ganolfannau gyflwyno'r ffurflen hon ar-lein, gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau, i'r corff dyfarnu priodol **o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad yr arholiad dan sylw**. Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.
Ni fydd corff dyfarnu yn derbyn hysbysiadau dros e-bost yn ymwneud ag ymgeiswyr yn cyrraedd yn hwyr iawn.
7. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r meysydd canlynol: Manylion y ganolfan, Manylion yr ymgeisydd, Corff Dyfarnu, Cymhwyster, Cyfres Arholiadau, Cod y pwnc neu'r uned/cydran.
8. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch sydd â'r pennawd 'Amser y daeth yr ymgeisydd o dan oruchwyliaeth staff y ganolfan'.
9. Yn y blwch 'Y rheswm dros fod yn hwyr', dylai canolfannau nodi union natur yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymgeisydd yn cyrraedd yn hwyr. **Er enghraifft, afiechyd neu broblemau trafnidiaeth.** Dylai canolfannau roi manylion unrhyw drefniadau arbennig a wnaethpwyd i'r ymgeisydd gyrraedd y ganolfan.
10. Yn y blychau priodol, dylai canolfannau nodi'r union amser y gwnaeth y ganolfan ddechrau a gorffen yr arholiad, a'r amser y bu i'r ymgeisydd dan sylw ddechrau a gorffen ei arholiad.
11. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch 'Pa mor sicr allwch chi ddweud nad yw'r ymgeisydd wedi gweld nac wedi cael gwybod am gynnwys y papur cyn sefyll yr arholiad?'
12. Dylai canolfannau atodi i'r ffurflen unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod yr ymgeisydd yn hwyr am resymau y tu hwnt i'w reolaeth a/neu sydd wedi rhoi'r sicrwydd iddynt a nodir ym mhwynt 11 uchod. Gall y dystiolaeth hon gynnwys:
 - datganiadau (e.e. gan yr ymgeisydd, rhiant, trydydd parti)
 - lluniau (e.e. o darfu ar draffig)
 - dogfennau eraill.

13. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan fod yn ymwybodol o'r angen i gyflwyno'r ffurflen a **rhaid** i bennaeth y ganolfan awdurdodi ei chyflwyno.
14. **Rhaid** anfon y sgriptiau at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.

©JCQ 2026 – Yn weithredol o 1 Medi 2026